**Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012: Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru**
**Sicrhau'r Gwaddol yng Nghymru**

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 i helpu i godi proffil rhyngwladol Cymru ar lwyfan digwyddiadau mawr a phencampwriaethau chwaraeon. Bydd Cymru'n elwa'n uniongyrchol gan ei bod yn croesawu cyfres o Wersylloedd Hyfforddi cyn y Gemau, Teithiau Cyfnewid y Fflam Olympaidd a Pharalympaidd, 11 gêm bêl-droed Olympaidd a sawl digwyddiad pwysig dan yr Olympiad Diwylliannol. Bydd pob un o'r rhain yn helpu i sicrhau gwaddol parhaol o ran diwylliant a chwaraeon yng Nghymru.

Bydd llygaid y byd ar y DU yn 2012 ac mae rhagor o gyfleoedd i Gymru godi ei phroffil ymhlith amrywiol gynulleidfaoedd dylanwadol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y prif gyfleoedd a'r camau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y gwaddol economaidd yng Nghymru drwy hyrwyddo masnach a buddsoddiad, hybu twristiaeth a gwella enw da Cymru ledled y byd yn y cyfnod sy'n arwain at y Gemau, yn ystod y Gemau ac ar eu hôl.

## 2. Y Cyfle

Ni chewch ddigwyddiad byd-eang gwell na'r Olympiad modern o ran maint, proffil, cyfranogiad a'r effeithiau sy'n deillio ohono.
Bydd Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 yn achlysur byd-eang sydd werth biliynau o bunnoedd a bydd yn cynnig cyfleoedd cwbl arbennig i godi proffil y DU gyfan. Mae gan y digwyddiad hwn y pŵer i hybu twristiaeth, creu cyfleoedd busnes, diwylliannol ac addysg, a sbarduno diddordeb mewn chwaraeon ymhlith cenhedlaeth o bobl ifanc.

Bydd y Gemau Olympaidd a digwyddiadau cysylltiedig yn cyrraedd amrywiaeth fawr o gynulleidfaoedd yn fyd-eang gan gynnwys:

- **Dros 200 o wledydd sy'n cymryd rhan a 26 o chwaraeon gwahanol.**
- **Oddeutu 20,000 o athletwyr gan gynnwys 4200 o Baralympiaid.**
- **70,000 o Wirfoddolwyr Gemau/Llysgenhadon Llundain.**
- **Bron i 1 miliwn o ymwelwyr ychwanegol yn ystod y gemau, hyd at draean o dramor.**
- **4 biliwn o wylwyr teledu**.

**• 20,000 o newyddiadurwyr chwaraeon achrededig ynghyd â 12,000+ o newyddiadurwyr na fyddant yn adrodd ar y Gemau ac yn rhoi sylw i straeon eraill.**

Yn Llundain y bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau, a'r ddinas hon fydd yn elwa'n bennaf o'r buddion uniongyrchol yn y fan a'r lle. Fodd bynnag, nodwyd amcan ers tro byd i sicrhau bod pob rhan o'r DU yn elwa o'r cyfleoedd a'r gwaddol a ddaw yn sgil y Gemau. Ni fydd y buddion hyn yn llifo'n awtomatig ac mae risgiau os na fydd effeithiau posib yn cael eu rheoli'n ofalus fel y dangoswyd gyda'r cyhoeddusrwydd negyddol adeg Gemau'r Gymanwlad yn ddiweddar.

### 3. Amserlen y Digwyddiadau

Dim ond 300 diwrnod sydd i fynd tan y Gemau. Mae Cymru yn croesawu sawl Gwersyll Hyfforddi Cyn y Gemau yn y cyfnod yn arwain at y Gemau a bydd y prif ddathliadau yng Nghymru yn dechrau gyda Thaith Gyfnewid y Fflam Olympaidd sy'n dod i Gaerdydd ar 25ain Mai 2012. Bydd twrnamaint Pêl-droed y Gemau Olympaidd yn dechrau yng Nghaerdydd ar 25ain Gorffennaf cyn prif Seremoni Agoriadol y Gemau Olympaidd ar 27ain Gorffennaf. Amgaeir amserlen lawn yn Atodiad 1.

### 4. Cynulleidfaoedd allweddol

Bydd y Gemau yn denu nifer fawr o ymwelwyr dylanwadol gan gynnwys swyddogion chwaraeon, swyddogion corfforaethol a swyddogion llywodraeth a bydd ymwelwyr ychwanegol a'r cyfryngau yn dod i fwynhau'r Gemau yn y DU. Bydd hyn yn creu cynulleidfa barod fawr sydd wedi'i lleoli'n bennaf yn Llundain a'r dalgylch ac mewn lleoliadau eraill yn y DU Bydd Llundain yn cael ei brandio'n helaeth a bydd prif leoliadau'r Gemau Olympaidd a'r cyfryngau awyr agored o'u cwmpas yn cael eu sicrhau ar gyfer noddwyr masnachol neu byddant yn rhy ddrud i gael mynediad iddynt. Bydd yn anodd dros ben creu presenoldeb amlwg y tu allan i Gymru felly rydym yn cynnig ffyrdd mwy uniongyrchol a phendant i ymgysylltu â'n prif gynulleidfaoedd a dylanwadwyr, fel yr amlinellir isod:

- **Athletwyr Cymru**. Mae'n bur debyg y bydd cynrychiolaeth dda o athletwyr Cymru yn cymryd rhan fel Aelodau o Dîm Olympaidd a Pharalympaidd Prydain Fawr,
  ac mae gan rai ohonynt obaith gwirioneddol o ennill medalau. Ceir cyfleoedd i elwa ar eu proffil uwch yn y cyfryngau ac yn gyhoeddus yn y cyfnod yn arwain at y gemau, yn ystod y gemau ac ar eu hôl, fel modelau rôl ym maes chwaraeon ac fel llysgenhadon posib dros Gymru.
- **Athletwyr sy'n Ymweld.** Bydd Cymru'n croesawu amrywiaeth eang o'r athletwyr gorau un ynghyd â'u teuluoedd a'u gosgordd yn ystod cyfnod y Gwersylloedd Hyfforddi cyn y Gemau ac yn ystod digwyddiadau Pêl-droed y Gemau Olympaidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddangos ein cyfleusterau chwaraeon gwych ac i roi croeso arbennig i'n hymwelwyr i'w helpu i fod yn eiriolwyr cadarnhaol dros Gymru

yn ystod eu hymweliad ac i'r dyfodol.  Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â'r cymunedau a'r busnesau lleol ac i fwynhau unrhyw amser hamdden sydd ganddynt drwy ymweld â'r atyniadau lleol.

- **Cyhoedd Cymru.** Ceir cyfleoedd i annog y cyhoedd yng Nghymru i ddathlu'r gemau yng Nghymru drwy fod yn wirfoddolwyr, drwy ddangos cefnogaeth i'n hathletwyr sy'n cymryd rhan ac i'r athletwyr sy'n ymweld, drwy fynd i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon yng Nghymru ac yn weddill y DU, a drwy ysgogi prosiectau Marc Ysbrydoli mewn lleoliadau yn Llundain, yn Safleoedd Byw Cymru ac yn Stadiwm y Mileniwm
- **Gwylwyr sy'n ymweld**. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn mynd i'r digwyddiadau sydd yn Llundain ond mae cyfleoedd i ddenu ymwelwyr newydd i Gymru i wylio'r gemau pêl-droed yng Nghaerdydd ac i fwynhau digwyddiadau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r Olympiad Diwylliannol ynghyd ag arddangos prosiectau Marc Ysbrydoli yn 'fyw' yn Stadiwm y Mileniwm ac o'i chwmpas, ac ar sgrin neu mewn Safleoedd Byw.

- **Y Cyfryngau (DU a rhyngwladol**). Bydd hyn yn cynnwys y cyfryngau chwaraeon achrededig yn rhoi sylw i'r prif ddigwyddiadau ond mae lle hefyd i dargedu
  a meithrin cysylltiadau gyda nifer fawr o gyfryngau nan fyddant yn rhoi sylw i'r Gemau a fydd yn ymweld â'r DU yn chwilio am straeon pellach a digwyddiadau ledled y DU.  Mae'n bur debyg mai Llundain fydd prif leoliad a chanolbwynt y rhan fwyaf o'r newyddiadurwyr a fydd yn ymweld ond mae cyfleoedd i rwydweithio a hyrwyddo prif negeseuon Cymru ac i sicrhau bod cynnwys a newyddion ar gael yn rhwydd i'r cyfryngau rhyngwladol eu defnyddio.
- **Cyfryngau Cymdeithasol**. Mae'n debyg mai dyma fydd y Gemau Olympaidd gwirioneddol ddigidol cyntaf a bydd cyfleoedd newydd i rannu straeon, cynnwys a
  gwybodaeth gadarnhaol gyda dylanwadwyr allweddol a rhwydweithiau cymdeithasol a busnes ar-lein, gan gynnwys y rheini sydd eisoes yn ddilynwyr cymunedau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.
- **Ymwelwyr posib i Gymru (DU a rhyngwladol)** Mae'n bosib y bydd dathliadau'r Gemau Olympaidd yng Nghymru yn rheswm ychwanegol dros ymweld â Chymru yn ystod haf 2012.  Ceir cyfleoedd tactegol hefyd i hyrwyddo Cymru fel lleoliad cyfleus arall a gwahanol i
  Lundain i'r rheini sydd am osgoi'r gemau ac i rai ymwelwyr rhyngwladol sy'n dod i'r Gemau yn Llundain. Bydd proffil uwch y DU ar ôl y Gemau, yn arbennig ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol newydd, yn gyfle allweddol i Gymru sicrhau bod cyfran o'r nifer gynyddol o ymwelwyr yn ymweld â Chymru, drwy farchnata effeithiol a pharhaus.
- **Partneriaid/cyfryngwyr twristiaeth**  Bydd mwy o ymdrechion marchnata gan gyrff masnachol a chyrff cyhoeddus eraill yn y cyfnod yn arwain at y Gemau Olympaidd ac ar eu hôl a bydd yn gyfle allweddol i Gymru weithio ochr yn ochr â phartneriaid newydd a phartneriaid presennol er mwyn sicrhau bod gan Gymru gynrychiolaeth gadarn mewn gwaith hyrwyddo a rhaglenni cwmnïau trefnu gwyliau.
- **Busnes.**  Ceir cyfleoedd i gyflenwyr Cymru ddarparu gwasanaethau busnes i'r Gemau ac i dargedu buddsoddwyr posib, arweinwyr busnes, noddwyr a chysylltiadau masnach yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â'r sectorau allweddol.

- **Ffederasiynau a Swyddogion Chwaraeon** – Bydd y sylw ar y DU wrth iddi gynnal y digwyddiad mwyaf yn y byd ym maes chwaraeon yn helpu Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i geisio denu digwyddiadau mawr i Gymru yn y dyfodol. Gwneir ymdrech benodol i sicrhau hyn yng Nghonfensiwn Chwaraeon Blynyddol Sportaccord a gaiff ei gynnal yn Quebec ym mis Mai 2012. Dyma'r fforwm a'r cyfarfod blynyddol pwysicaf i ffederasiynau chwaraeon rhyngwladol ac i'r diwydiant digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol.

## 5. Y weledigaeth gyffredinol a'r gwaddol economaidd yng Nghymru

Gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru yw manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd, diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon a ddaw i Gymru yn sgil Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012, a chynnal hynny. Gwnawn hyn gan roi sylw llawn i'r cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol, dwyieithrwydd a phroffil Cymru yn y byd.

O fewn hyn, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y budd economaidd a'r gwaddol i Gymru drwy elwa ar y cyfleoedd i ddatblygu busnesau, hyrwyddo twristiaeth a gwella enw da Cymru ym maes chwaraeon a diwylliant:

- **Cynnal Digwyddiadau a Gwaddol ym maes Chwaraeon:** Rydym yn bwriadu rhoi mwy o amlygrwydd i'r Gemau yng Nghymru a chodi proffil
  Cymru yn y byd drwy gyflawni nodau 'Digwyddiadau yng Nghymru' sef Strategaeth Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru, a drwy gysylltiadau economaidd, diwylliannol a chwaraeon gyda'r gwledydd hyn sy'n dod i Gymru ar gyfer yr hyfforddiant cyn y gemau drwy'r Rhaglen Ysbrydoli neu yn ystod y Gemau.
- **Creu busnes:** Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod Cymru yn cael y buddion economaidd a masnachol mwyaf posibl
  o’r Gemau. Byddwn yn dangos y gorau o ran dyfeisgarwch, gwyddoniaeth a thechnoleg Cymru drwy astudiaethau achos busnes Llundain 2012.
  **Hybu twristiaeth:** Rydym am roi hwb cynaliadwy i'r economi ymwelwyr drwy fanteisio ar y ffaith bod y Gemau a digwyddiadau diwylliannol yn cael eu cynnal er mwyn codi proffil Cymru a denu ein cyfran o'r ymwelwyr ychwanegol a ddaw i'r DU.
- **Dangos diwylliant Cymru:** Ein nod yw datblygu cyfraniad Cymru i raglen yr Olympiad Diwylliannol gymaint â phosib, gan hyrwyddo delwedd gyfoes a grymus o Gymru i'r Byd a helpu i ehangu mynediad a chyfranogaeth ymysg ymwelwyr a'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda Phwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a phartneriaid eraill er mwyn datblygu'r proffil gymaint ag y bo modd a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun sy'n berthnasol i Lundain 2012.

## 6. Cyflawni ein gweledigaeth

Bydd Lywodraeth Cymru yn asesu ac yn penderfynu pa flaenoriaethau a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli y gellir eu datblygu yn gyfreithiol, gan wneud y mwyaf o'r
cyfleoedd a gynigir gan y Gemau. Wrth wneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Cefnogi blaenoriaethau strategol.** Bwrw ymlaen â chamau a all wella a chefnogi blaenoriaethau a chanlyniadau allweddol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a chynlluniau adrannau Llywodraeth Cymru.
- **Camau gweithredu penodol.** Byddwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd penodol a all wneud gwahaniaeth amlwg gyda'n cynulleidfaoedd targed ac adlewyrchu'r realiti y bydd y rhan fwyaf o'r sylw a'r buddion uniongyrchol yn debygol o fynd i Lundain, ond lle mae cyfleoedd yng Nghymru neu'n ymwneud â chyfranogwyr o Gymru, gwneud yn siŵr ein bod yn lledaenu'r buddion i Gymru.
- **Cymryd rhan.** Byddwn yn chwarae ein rhan yn llawn fel croesawyr, cyfranogwyr a gwirfoddolwyr ac yn ceisio dylanwadu, lle bo'n bosibl, ar ddigwyddiadau yng ngweddill y DU er mwyn cael proffil amlwg a gweladwy i Gymru.
- **Meithrin Partneriaethau.** Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid allweddol, UKTI, Visit Britain, Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a lleoliadau yng Nghymru, i sicrhau proffil cadarn a buddion allweddol i Gymru gan gynnwys **Gadael gwaddol parhaol** – Byddwn yn ystyried sut gall yr holl gyfleoedd a chamau gweithredu gefnogi buddion cynaliadwy yn y cyfnod sy'n arwain at y Gemau, yn ystod y gemau ac ar eu hôl.

.

## 7. Sicrhau'r Gwaddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain yr ymdrech i ymgysylltu, cydlynu a gweithredu'r cyfle a ddaw yn sgil y Gemau ledled Cymru. Cyfarwyddwr Marchnata a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru yw cadeirydd Grŵp Llywio Cymru ar gyfer Gemau 2012 ac mae cynrychiolwyr o amrywiaeth o randdeiliaid allweddol Cymru ar y grŵp. Dyma ein corff arweiniol fel rhan o Grŵp Gwledydd a Rhanbarthau'r DU yn ymgysylltu gyda Phwyllgor Trefnu'r Gemau, Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a Gweithrediaeth Olympaidd y Llywodraeth. Yng Nghymru, mae sawl is-grŵp wedi'i sefydlu i gefnogi'r strwythur hwn gan gynnwys Grŵp Gweithrediadau Cymru, Grŵp Gweithrediadau Caerdydd, Grŵp Cynghori ar Daith Gyfnewid y Fflam, Grŵp Cyfathrebu a'r Grŵp Olympiad Diwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod Cymru'n elwa o Gemau Olympaidd 2012 yn Llundain cyn,
yn ystod ac ar ôl y digwyddiad gan gynnwys sicrhau ei bod yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol allweddol y Gemau Olympaidd. Mae hyn wedi rhoi Cymru mewn sefyllfa dda i elwa ar y sylw yn y cyfryngau a'r budd cyhoeddus a fydd yn parhau i dyfu yn y cyfnod olaf sy'n arwain at y Gemau ac i sicrhau mwy o fudd o ran cyhoeddusrwydd, ymwelwyr a busnes fel gwaddol allweddol o ddigwyddiad llwyddiannus y DU gyfan.

Mae'r cynlluniau gweithredu canlynol yn nodi'r amcanion penodol ar gyfer prif feysydd blaenoriaeth gan gynnwys y manteision y mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i'w sicrhau eisoes a'r camau allweddol pellach a gymerir yn y cyfnod cyn y gemau, yn ystod y Gemau ac ar eu hôl.

## 8. Cynnal Digwyddiadau Olympaidd

### 8.1 Y Cyfle

Mae cynnal y Gemau yn y DU wedi rhoi cyfleoedd i Gymru gynnal rhai o'r dathliadau a'r digwyddiadau chwaraeon ac i annog timau i leoli eu hyfforddiant cyn y gemau yng Nghymru. Gall pob un o'r rhain helpu i roi proffil cadarnhaol i Gymru ac i ddenu ymwelwyr gan roi hwb uniongyrchol i'r economi a chyfle i adeiladu ar ein henw da a chreu cysylltiadau parhaol gyda chynulleidfaoedd rhyngwladol newydd.

### 8.2 Amcanion

- I godi ein proffil a rhoi croeso o'r radd flaenaf a phrofiad Cymreig unigryw i'r athletwyr sy'n ymweld, y cyfryngau a'r ymwelwyr i Gymru yn ystod y Gemau.
- I gefnogi ein hathletwyr o Gymru ac i harneisio eu rolau posibl fel modelau rôl a llysgenhadon dros Gymru.
- I ddangos ein cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon a defnyddio dathliadau'r Gemau yng Nghymru fel catalydd i ddenu, hyrwyddo a gwella digwyddiadau eraill yng Nghymru.

### 8.3 Camau Gweithredu Allweddol.

**Gwersylloedd Hyfforddi Cyn y Gemau**

Ar hyn o bryd, mae chwe thîm Olympaidd a chwe thîm Paralympaidd wedi cadarnhau eu bod yn dod i Gymru yn y cyfnod cyn gemau Llundain 2012 a bydd bron i 900 o'r athletwyr gorau a'u staff cymorth yn rhoi budd i'r economi a fydd yn werth miliynau o bunnoedd. Mae nifer o deithiau rhagbaratoi a gwersylloedd eisoes wedi'u cynnal. Targedwyd gwledydd y Gymanwlad yn fwriadol gan fod Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal yng Nglasgow yn 2014 a'r posibilrwydd o gael busnes eto. Mae Pwyllgor Paralympaidd Awstralia yn ystyried defnyddio Cymru fel canolfan hyfforddi hirdymor ar gyfer athletwyr wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau Ewropeaidd ar ôl 2012.

Ceir cyfleoedd i elwa ar y cysylltiadau chwaraeon cryfach hyn er mwyn datblygu mwy o gysylltiad gyda gwledydd eraill megis yr ymweliad llwyddiannus diweddar â Seland Newydd lle bu'r Prif Weinidog yn ŵr gwadd yn nathliadau Diwrnod y Gemau Paralympaidd Rhyngwladol gan ddefnyddio'r ymweliad i hybu twristiaeth Cymru, y diwylliant a'r buddiannau busnes.

Byddwn yn ceisio harneisio ymweliadau yn y dyfodol a chyfleoedd hyfforddi Cyn y Gemau drwy wneud y canlynol:

- Bydd Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus/preifat i ddenu timau Olympaidd a Pharalympaidd a manteisio i'r eithaf ar y cyfle ym mhob rhan o Gymru, ac arwain y broses gydlynu ar gyfer y timau hynny sydd eisoes wedi ymrwymo i baratoi yng Nghymru.
- Bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn gweithio gyda sefydliadau’r sector cyhoeddus a'r sector preifat i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd gwaddol i Gymru a ddaw yn sgil y gwersylloedd hyfforddi cyn y Gemau, mentrau a phrif ddigwyddiadau Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, gan gynnwys rhaglen ymgysylltu â'r gymuned 2012, ac i weithio ar y cyd â'r Rhaglennydd Ysbrydoli a Rhaglennydd Creadigol Llundain 2012 ar gyfer Cymru.
- Bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau a phartneriaid i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru sy'n ymwneud â digwyddiadau hyfforddi cyn y Gemau.  (Mae pencampwriaeth Jiwdo'r Gymanwlad a Chwpan y Byd Slalom Canŵod 2012 yn rhoi cyfleoedd i ddenu gwledydd i Gymru ac i ddangos cyfleusterau o safon ryngwladol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda thimau sy'n ymweld, partneriaid a rhanddeiliaid i gael cymaint o gysylltiadau cyhoeddus ag sy'n bosibl a chael cynnwys/lluniau/negeseuon cadarnhaol gan athletwyr, staff cymorth ac ymwelwyr am eu harhosiad yng Nghymru.  Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso arbennig gan gynnwys gwahoddiadau i atyniadau lleol.
- Mae sawl prosiect Marc Ysbrydoli'r Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd (e.e. Caerdydd a Thorfaen) eisoes ar waith sy'n dangos bod cymunedau Cymru yn coleddu ac yn eiddgar i fod yn rhan o weithgarwch Hyfforddi Cyn y Gemau yng Nghymru.

**Hyrwyddwyr Cymru**

Nid oes dwywaith nad ein hathletwyr gorau fydd sêr go iawn y Gemau ac yn ffocws sylw'r cyhoedd a'r cyfryngau yn ystod 2012 a thu hwnt.  Yn anad dim, bydd y Gemau Olympaidd yn gyfle i annog y wlad gyfan i gefnogi timau Prydain Fawr.  Mae sawl athletwr o Gymru eisoes wedi dangos diddordeb i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru fel rhan o weithgareddau maes a hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys sawl cyfraniad cytunedig i Gylchgrawn View Cymru 2012.  Rydym wedi llwyddo i weithio gyda'n sêr adnabyddus o fyd Golff i helpu i godi proffil Golff yng Nghymru. Ceir cyfle i ddatblygu'r dull hwn o weithredu ac i benodi grŵp dethol o Hyrwyddwyr Cymru, gan gynnwys sêr y Gemau Olympaidd ddoe a heddiw a sêr eraill y byd chwaraeon sydd â phroffil uchel.

**Teithiau Cyfnewid y Fflam Olympaidd a Pharalympaidd.** Bu Grŵp Cynghori Cymru ar Daith Gyfnewid y Fflam yn cydweithio gyda Thîm Taith Gyfnewid y Fflam i sicrhau y bydd fflam y Gemau Olympaidd yn cael ei chario drwy bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y Fflam Olympaidd yn treulio pum niwrnod yng Nghymru - gan alw yng Nghaerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor, ac yn cael ei chario gan oddeutu 500 o Gymry. Mae Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn bwriadu darlledu rhaglen awr wedi'i golygu ar The One Show yn ystod Taith y Fflam. Ystyrir defnyddio delweddau eiconig a ffyrdd anarferol o deithio ar gyfer cludo'r Fflam. Cynhelir gŵyl y Fflam Paralympaidd yng Nghaerdydd ar 27 Awst 2012 fel un o'r pum lleoliad yn y DU gyda noson o ddathliadau wedi'u trefnu gan Bwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a Chyngor Caerdydd.

Byddwn yn gweithio gyda Phwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd a'r awdurdodau lleol yng Nghymru i elwa'n llawn ar gyfleoedd cyhoeddusrwydd ac i roi gwybodaeth a chynnwys i'n prif gynulleidfaoedd er mwyn dangos y dathliadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer Taith Gyfnewid y Fflam yng Nghymru ac i hyrwyddo straeon perthnasol am y Cymry sy'n cario'r fflam. Drwy ysgogi prosiectau Marc Ysbrydoli Cymru, mae Taith Gyfnewid y Fflam yn rhoi cyfle i ddangos Prosiectau Ysbrydoli Llundain 2012 yng Nghymru ar hyd llwybr Taith Gyfnewid y Fflam, wrth aros mewn llefydd amser cinio ac mewn dathliadau gyda'r nos. Mae'r Rhaglennydd Ysbrydoli ar gyfer Cymru yn gweithio gyda grwpiau'r Tasglu Cymunedol i wneud yn siŵr y bydd hyn yn digwydd.

**Gemau pêl-droed y Gemau Olympaidd** Cynhelir digwyddiad cyntaf un y Gemau Olympaidd yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, deuddydd cyn y seremoni agoriadol swyddogol - un ar ddeg o gemau i ddynion a menywod ar wyth dyddiad o 25 Gorffennaf, 2012 ymlaen gan gynnwys gêm y fedal efydd. Disgwylir i dîm Prydain Fawr chwarae ym mhob stadiwm Olympaidd, gan gynnwys Caerdydd. Bydd yr ymgyrch docynnau a ddisgwylir gan Bwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn cael ei chynnal o fis Tachwedd 2011 ymlaen. Ar hyn o bryd nid oes tocynnau wedi'u neilltuo i Lywodraeth Cymru. Bydd angen i ni gadarnhau unrhyw ofynion o ran tocynnau er mwyn cefnogi unrhyw deithiau a chyfleoedd rhwydweithio arfaethedig adeg y gemau pêl-droed i'r timau marchnata a thwristiaeth.

**Digwyddiadau Mawr Cysylltiedig**. Mae Cymru eisoes wedi sicrhau digwyddiad Cwpan y Byd Slalom Canwod ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin 2012, y gystadleuaeth fawr olaf yn y maes yn y cyfnod yn arwain at rowndiau terfynol y Gemau Olympaidd. Mae trafodaethau ar y gweill hefyd ar gyfer cynlluniau i gynnal digwyddiad maes a thrac athletau ar gyfer mis Gorffennaf 2012 gan gynnwys tîm Athletau Olympaidd Trinidad a Tobago a fydd yn aros yng Nghaerdydd. Yn ddiweddar, cynhaliwyd digwyddiad Rhyngwladol Rygbi mewn Cadeiriau Olwyn yng Nghymru. Mae cyfleoedd i gael digwyddiadau seiclo mawr hefyd yn cael eu trafod ymhellach gyda'r bwriad o elwa ar y ffocws a roddir yn 2012 ac fel hwb ar gyfer y dyfodol. Mae cynllun ar gyfer cynnal ail Gemau Meddwl y Byd (cynhaliwyd y cyntaf yn Beijing yn 2008 ac mae Brazil wedi'i gadarnhau ar gyfer 2016) yn cael ei drafod hefyd ar gyfer y cyfnod rhwng diwedd y Gemau Olympaidd a dechrau'r Gemau Paralympaidd

yn 2012. Hefyd mae cynnig sydd ychydig yn hynod i gynnal Gemau Gwahanol y Byd (World Alternative Gamaes) a fyddai'n adeiladu ar y proffil uchel sydd eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer Pencampwriaeth Snorcelu Corsydd y Byd yn Llanwrtyd.

Bydd Gemau Cymru, sef prosiect gwaddol chwaraeon mwyaf blaenllaw Cymru sy'n rhan o brosiect Ysbrydoli Llundain 2012, yn cael eu cynnal ar benwythnos 13$^{eg}$ - 15$^{fed}$ Gorffennaf yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, a bydd yn cynnwys pedwar chwaraeon ychwanegol. Gobeithir y bydd y timau sy'n ymweld ac sy'n aros yng Nghymru ar gyfer yr Hyfforddiant Cyn y Gemau yn chwarae rôl weithgar yn y digwyddiad.

**Cysylltiadau a Digwyddiadau Chwaraeon**. Bydd mynediad at Ffederasiynau Rhyngwladol adeg y Gemau yn gyfyngedig iawn oherwydd cyfyngiadau ynghylch achrediadau ond rydym yn gobeithio defnyddio Twrnamaint Pêl-droed y Gemau Olympaidd a'r gemau yn Stadiwm y Mileniwm i hybu'r stadiwm ymhellach fel man posibl i gynnal Gemau Terfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA ac ar gyfer cyfranwyr allweddol eraill megis yr NFL a'r NBA.

## 9. Dangos diwylliant Cymru

### 9.1 Y Cyfle

Nid dim ond sioe chwaraeon fawr fydd y Gemau Olympaidd yn 2012, bydd yn gyfle i ddangos amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog ac apêl y DU gyfan. Olympiad Diwylliannol Llundain 2012 yw'r dathliad diwylliannol mwyaf yn hanes y Mudiad Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd modern a bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a dathliadau diwylliannol newydd ledled y DU yn ystod 2012.

### 9.2 **Amcanion**

- Ein nod yw datblygu cyfraniad Cymru i raglen yr Olympiad Diwylliannol gymaint â phosibl, gan hyrwyddo delwedd rymus a chyfoes o Gymru i'r Byd.
- Byddwn yn defnyddio Rhaglen yr Olympiad Diwylliannol ar gyfer Cymru fel catalydd i gysylltu pobl ifanc ac i harneisio dawn Cymru er mwyn sicrhau gwaddol diwylliannol parhaol i Gymru ac i gysylltu cymunedau amrywiol mewn dathliad egnïol drwy gydol 2012.
- Byddwn yn hyrwyddo'r rhaglen o ddigwyddiadau a dathliadau yng Nghymru, ynghyd â digwyddiadau mawr eraill Cymru, fel rhan o'n dulliau cyfathrebu i roi hwb i'n hapêl gyffredinol fel cyrchfan ac i helpu i ddylanwadu ar gynulleidfaoedd allweddol i ymweld â'r wlad.

### 9.3 **Camau Gweithredu Allweddol.**

Mae **Grym y Fflam** yn brosiect ledled Cymru werth £2.85 miliwn a ariennir gan Legacy Trust UK, elusen annibynnol sy'n creu gwaddol diwylliannol a chwaraeon ledled y DU yn sgil Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddefnyddio Gemau Llundain 2012 fel catalydd i ysbrydoli pobl ifanc i lwyddo hyd eithaf eu gallu yn eu dewis faes. Mae cenhedlaeth o bobl ifanc Cymru wedi cael eu hysbrydoli gan y Gemau yn y prosiect hwn a ddatblygwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar y cyd ag: Urdd Gobaith Cymru, Cadw, Celfyddydau Anabledd Cymru, Valleys Kids a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cynhelir deg ar hugain o ddigwyddiadau ledled Cymru yn ystod 2012 i goroni 4 blynedd o ddatblygiad mawr.

Mae Grym y Fflam yn cynnwys pum prosiect unigryw:

- **Dilyn y Fflam** - arddangosfeydd, cyhoeddiadau, ffilmiau, gweithdai addysgol a digwyddiadau arbennig - i archwilio a dathlu hanes ysbrydoledig y Cymry sy'n mynd yn angof yn aml, sef y dynion a'r menywod sydd wedi cyfrannu at hanes y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd.
- **Tanio Talent** - gan ddefnyddio arddulliau perfformio cyfoes i greu theatr ddeinamig yn y Gymraeg. Bydd 30 o bobl ifanc o Eryri yn cyflwyno'r Neges Ewyllys Da ar 18fed Mai 2012.
- **Fflam Pwy?** Prosiectau a pherfformiadau Celfyddydau Anabledd Cymru sy'n ymgysylltu ag ysgrifenwyr, cerddorion, artistiaid gweledol, dawnswyr ac actorion anabl ifanc ledled Cymru. Mae'n cynnwys *Chwalu'r Muriau*, cyfansoddiad newydd gan y cyfansoddwr ifanc talentog Lloyd Coleman a chwaraeir gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC fel rhan o gyngerdd cyhoeddus yn Neuadd Dewi Sant ddydd Sul Mawrth 4.
- **Crochan a Ffwrnais** – Mewn wyth safle Cadw ledled Cymru adroddir straeon hynod mewn llefydd anghyffredin, gan roi manylion treftadaeth ddiwylliannol amrywiol a chyfoethog ein gwlad.
- **Mzansi Cymru -** prosiect rhyngwladol uchelgeisiol, a ddechreuwyd gan elusen datblygu cymunedol Valleys Kids, er mwyn ceisio datblygu cysylltiadau hirdymor gyda Threflannau yn Cape Town. Ym mis Gorffennaf 2012, cyflwynir cynhyrchiad theatr gymunedol anhygoel ar raddfa fawr i ddathlu talentau a rhannu diwylliannau cyfranogwyr hen ac ifanc o Gymru a De Affrica.

**Gŵyl 2012** – Daw artistiaid blaenllaw o bob cwr o'r byd ynghyd yng ngŵyl fwyaf erioed y DU – cyfle i bawb ddathlu Llundain 2012 drwy ddawns, cerddoriaeth, theatr, y celfyddydau gweledol, arloesedd digidol a byd ffilm a gadael gwaddol parhaus i'r celfyddydau yn y DU. Bydd y dathliadau'n dechrau ar ddydd Gŵyl Ifan yn 2012 ac yn parhau tan 9 Medi 2012.

**Adain Avion** – gofod celfyddydol cymunedol yn teithio drwy Gymru gyfan yn ystod haf 2012 ar ffurf DC9 Fuselage

**Safleoedd Byw** – bydd safleoedd byw yn yr Ais, Caerdydd a Sgwâr y Castell Abertawe gyda lle i hyd at 5000 o bobl, ac mae Safleoedd Byw Cymunedol eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Rhaglen Ysbrydoli** – Mae dros 35 prosiect sydd wedi cael y Marc Ysbrydoli yng Nghymru gan gynnwys amrywiaeth eang o brosiectau gwirfoddoli a chwaraeon, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu hysbrydoli gan y gweithgarwch Hyfforddiant Cyn y Gemau a gynhelir yng Nghymru. Yn 2012 bydd pwyslais y Rhaglen Ysbrydoli yn newid o recriwtio prosiectau i ysgogi cysylltiad y prosiectau yn uniongyrchol â Gemau 2012. Cyflawnir hyn drwy Safleoedd Byw (arddangosiadau byw ac ar sgrin), arddangosiadau byw yn Lleoliadau'r Gemau Olympaidd ac o'u cwmpas - 'Profiadau Gwylwyr', drwy Wersylloedd Hyfforddi Cyn y Gemau, a Thaith Gyfnewid y Fflam (fel y nodwyd uchod). Mae Prif Brosiectau'r Marc Ysbrydoli yn cynnwys:

**Gemau Cymru** - prosiect gwaddol chwaraeon mwyaf blaenllaw Cymru. Eisoes cynhaliwyd digwyddiad chwaraeon aml-allu cenedlaethol i ysgolion, sy'n integreiddio chwaraeon i bobl anabl yn llawn ac amrywiaeth o chwaraeon. Yr Urdd oedd yn gyfrifol am gynnal y digwyddiad gwaddol hwn ac mae eisoes wedi denu sylw Llundain 2012 fel enghraifft o arfer da. Gobeithir y bydd ail ddigwyddiad blynyddol mwy yn cael ei gynnal ar 13-15 Gorffennaf 2012 a disgwylir i dimau sy'n ymweld i Hyfforddi Cyn y Gemau chwarae rôl weithgar yn y digwyddiad.

**Prosiect Cyfnewid Triongl Trinidad and Tobago** - mae'n ceisio elwa ar y gweithgarwch Hyfforddi Cyn y Gemau Olympaidd sy'n digwydd yng Nghymru. Mae hefyd yn cysylltu ysgolion o Drinidad a Tobago, Haringey (drwy Ysbrydoli Rhyngwladol) a'r Barri (De Cymru), gan greu rhith raglen gyfnewid, a Phrosiect Her y Gemau Olympaidd lle bydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn defnyddio gwerthoedd y Gemau Olympaidd (ar themâu'r pum cylch) i ymgysylltu â disgyblion ynghylch cynnydd academaidd, lles emosiynol a chymdeithasol, ffordd iach o fyw a chydlyniant cymunedol.

**Seremonïau agoriadol** Bydd proffil mawr iawn i'r rhain a bydd cynulleidfa anferth ar draws y byd yn eu gwylio ar y teledu. Mae manylion y seremonïau hyn yn gyfrinachol dros ben ond rydym wedi gofyn eu bod yn dangos y DU gyfan ac nid dim ond Llundain.

**Brandio Caerdydd, y stadiwm a'r maes awyr?** - mae Caerdydd wedi cael £275k i greu golwg a theimlad Olympaidd yn y cyfnod yn arwain at y Gemau a thros y cyfnod hwnnw. Mae safle byw swyddogol yn Abertawe a chaiff gymorth hefyd, ond ar lefel lai, er mwyn sicrhau golwg a theimlad Olympaidd. Ein ffocws, ynghyd â Stadiwm y Mileniwm, fydd ymchwilio i ffyrdd (drwy ddefnyddio technoleg mapio 3D er enghraifft) o wella'r modd y cyflwynir ac y darlledir digwyddiad Pêl-droed y Gemau Olympaidd drwy ddefnyddio'r strwythur unigryw yng Nghaerdydd lle caeir to'r stadiwm er mwyn creu delwedd eiconig o'r Stadiwm, Caerdydd a Chymru i'r byd. Gyda Chyngor Caerdydd, byddwn hefyd yn edrych ar y cyfleoedd i frandio prif ardaloedd y ddinas mewn ffyrdd sy'n gallu gwella profiad brand Caerdydd a Chymru gydag ymwelwyr i'r ddinas.

## 10. Hybu busnes

### 10.1 Y Cyfle

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd cychwynnol a ddaw yn sgil Llundain 2012 ers sawl blwyddyn. A'r gemau lai na blwyddyn i ffwrdd erbyn hyn, ceir rhagor o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru eu harchwilio sy'n cynnwys cyfranogiad mwy uniongyrchol y Gweinidogion a'r Cynghorwyr a benodwyd, megis Cadeiryddion y Paneli Sector. Mae'r rhain yn gyfleoedd rhwydweithio posibl adeg y Gynhadledd Buddsoddi Byd-eang a'r Uwchgynadleddau Sector dilynol, ac maent yn gyfle gwych i hybu Cymru a buddiannau busnes Cymru.

### 10.2 Amcanion Busnes

- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru allu elwa'n uniongyrchol o gontractau allweddol.
- Datblygu enw da Cymru fel cyrchfan busnes mewn sectorau targed.
- Manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil gweithgarwch gemau sy'n digwydd yng Nghymru.

### 10.3 Camau Gweithredu Allweddol

#### Buddsoddiad Busnes

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £327,880 at gostau gwefan CompeteFor, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Awst 2012. Hyd yn hyn, mae'r nifer ganlynol o fusnesau Cymru wedi cofrestru ar y safle: 3,529, gyda 1009 ar restr fer ar gyfer contractau. Hyd yn hyn, 49 sydd wedi ennill contractau drwy'r wefan. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwefan CompeteFor drwy ein gweithgarwch cyfathrebu yng Nghymru, oherwydd ar ôl y Gemau Olympaidd, bydd contractau ar gyfer Trafnidiaeth Llundain, Crossrail a Heddlu'r Metropolitan yn dal i gael eu cynnig ar y safle.

Mae'r rheini sydd wedi'u penodi yn pwysleisio pwysigrwydd ennill contractau o'r fath. Maent yn cynnwys cwmnïau megis Salix, cwmni a ffurfiwyd yn 2003 o arbenigwyr biobeirianneg ym maes gwelliannau ecolegol, yn gweithio'n bennaf ar afonydd sydd wedi'u difrodi a chynefinoedd gwlypdir eraill. Drwy Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012, mae cwmni Salix yn cydweithio'n agos ym mhrosiect creu cynefinoedd gwlypdir dinesig mwyaf Prydain gan ddarparu 380,000 o blanhigion dros 16km o wlypdiroedd a glannau afonydd. Erbyn hyn mae gan Salix ddwy feithrinfa blanhigion, un yn ardal Gŵyr Abertawe, sy'n cyflogi 17 o bobl. Mae'r adnodd hwn yn golygu bod y cwmni'n gallu cynnig ateb cyflawn - cynllunio, planhigion a chyflawni'r gwaith - dan yr un to, ar gyfer sawl cleient ledled y DU.

Cwmnïau arall o Gymru sydd wedi elwa o gontractau'r Gemau Olympaidd yw Mabeybridge sydd wedi ennill contract i ddarparu 29 pont ar gyfer parciau Olympaidd, ac mae Euroclad yn cynhyrchu cladin metel a thoeau ar gyfer adeiladau mawr, ac wedi sicrhau contractau i gyflenwi a gosod
ffasâd sgrin glaw ar gyfer dau o'r strwythurau mwyaf ar safle Gemau Olympaidd Llundain.

**Cyfleoedd UKTI**

Mae gan Lywodraeth y DU, drwy UKTI, gynllun gweithgaredd helaeth eisoes ar waith er mwyn manteisio ar gyfleoedd busnes – gwelir manylion yn *London 2012 Games – Delivering International Business Legacy.* Syr Alan Collins, Cyfarwyddwr Cyffredinol Uned Gwaddol y Gemau Olympaidd, sy'n arwain hyn.

Mae rhaglen gwaddol y Gemau Olympaidd UKTI yn rhannu'n ffrydiau gwaith ar wahân, ar gyfer gweithgarwch cyn y gemau; gweithgarwch yn ystod y gemau a gweithgarwch ar ôl y gemau.

Gyda rhaglen helaeth a sefydledig ar waith, UKTI yw'r asiantaeth arweiniol. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu i fod yn "fasnachfraint", hynny yw gellir cyflwyno ac addasu elfennau yn y rhanbarthau. I Lywodraeth Cymru, mae manteisio ar y rhaglenni hyn sydd eisoes yn bodoli yn cynnig amserlen a seilwaith parod.

Yn Atodiad 2 amgaeir cyfres o ddigwyddiadau busnes allweddol arfaethedig.

**11.1 Cyfle yn ymwneud â thwristiaeth**

Rhagwelir mai twristiaeth fydd un o'r prif elfennau economaidd a fydd yn elwa o'r Gemau a rhagwelir y bydd 4 miliwn o ymwelwyr yn dod i'r DU dros y pedair blynedd nesaf a hwb ychwanegol net o £2.09 biliwn i economi twristiaeth y DU dros y cyfnod rhwng 2007 a 2017. Bydd y manteision hyn yn deillio'n bennaf o fwy o bobl yn ymweld yn ystod cyfnod y Gemau a hwb i niferoedd yr ymwelwyr rhyngwladol, yn enwedig o farchnadoedd newydd, ar ôl y Gemau. Llundain fydd yn elwa'n bennaf yn syth ond rhagwelir y bydd y manteision yn lledaenu ar draws y DU ac amcangyfrifir y bydd hwb ychwanegol o £612m. Mae'r manteision mwyaf yn debygol o gael eu gweld ar ôl y gemau pan fydd mwy o apêl a diddordeb mewn ymweld â'r DU. Mae'r effaith benodol o ran Cymru yn ystod 2012 yn anoddach ei rhagweld. Mae risg y bydd rhai ymwelwyr rhyngwladol yn osgoi'r DU y flwyddyn nesaf oherwydd ofn y bydd prisiau'n cynyddu ac anhawster cael llety. Fodd bynnag, mae hyn yn creu cyfle i Gymru hyrwyddo'i hun fel dewis arall, fforddiadwy i aros, gyda

mynediad rhwydd at y digwyddiadau yng Nghymru a'r atyniadau yn Llundain a chyrchfannau eraill y DU. Mae risg y bydd elfennau o'n marchnad ddomestig allweddol yn gohirio gwyliau ac yn mynd ar lai o deithiau dydd tra bod y Gemau yn cael eu cynnal (ac yn ystod Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop sy'n digwydd cyn hynny). Ar nodyn cadarnhaol, mae'n bosib y bydd cyfleoedd i ddenu preswylwyr sy'n awyddus i ddianc o Lundain, pobl o dramor sy'n ymweld â ffrindiau a pherthnasau, ac ymwelwyr o'n marchnadoedd targed blaenoriaeth i fwynhau'r dathliadau a gynhelir yng Nghymru yn ystod 2012. Dim ond os byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo brand a thwristiaeth Cymru yn ystod 2012 a'r blynyddoedd dilynol y gwireddir y manteision yn llawn i dwristiaeth ac enw da Cymru. Yn benodol, dylem elwa o ddiddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau yn y Gemau Olympaidd a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru er mwyn dangos Diwylliant unigryw a bywiog Cymru a chryfhau ein henw da ymhellach fel lle i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored, y ddau beth yn elfennau allweddol o'n hapêl gyffredinol i dwristiaid.

**11.2 Amcanion Twristiaeth**

- Sicrhau bod Cymru'n elwa'n llawn o'r proffil uwch a'r ymwelwyr ychwanegol yn y cyfod yn arwain at y Gemau, yn ystod y Gemau ac ar eu hôl a lliniaru unrhyw effeithiau dadleoli posibl.
- Mynd ati'n effeithiol i roi cyhoeddusrwydd a darparu gwybodaeth i ymwelwyr posibl, y cyfryngau ym maes teithio a chanolwyr am y digwyddiadau Olympaidd allweddol a'r digwyddiadau perthnasol sydd yng Nghymru drwy Groeso Cymru a ffynonellau gwybodaeth partneriaid allweddol.

  Sicrhau bod ymwelwyr, cyfranogwyr a'r cyfryngau i ddigwyddiadau yng Nghymru yn cael croeso cadarnhaol a phrofiad Cymreig o safon uchel ac

  unigryw gan gynnwys cyfleusterau gwell a gwybodaeth well ar gyfer ymwelwyr a chanddynt anableddau.
- Sicrhau bod ymwelwyr, cyfranogwyr a'r cyfryngau i ddigwyddiadau yng Nghymru yn cael croeso cadarnhaol a phrofiad Cymreig unigryw gan gynnwys gwybodaeth i ymwelwyr a chanddynt anableddau.
- Gweithio gyda Visit Britain, Pwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a phartneriaid allweddol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn helpu i godi proffil Cymru ac yn cyflwyno rhesymau cadarnhaol dros ymweld â Chymru yn ystod 2012 ac ar ôl hynny drwy eu digwyddiadau, gweithgareddau marchnata, partneriaethau masnach.
- Cydlynu a chefnogi'r diwydiant twristiaeth a phartneriaid yn effeithiol er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd penodol sy'n codi o'r Gemau, Yr Olympiad Diwylliannol a digwyddiadau cysylltiedig ac elwa ohonynt.

**3. Camau Gweithredu Allweddol ym maes Twristiaeth**

**Ymgyrchoedd Croeso Cymru**

- Rydym yn bwriadu cynnal ymgyrchoedd brand Cymru ar gyfer defnyddwyr twristiaeth yn ein prif farchnadoedd targed yn ystod 2012 gan ddefnyddio'r cynllun Gwyliau Go Iawn sydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ar draws marchnadoedd a byddwn yn ceisio integreiddio negeseuon a chynnwys yn ymwneud â'n dathliadau Olympaidd drwy'r rhain.
- Byddwn yn defnyddio cyfleoedd penodol i anfon gwybodaeth yn ymwneud â'r Gemau a negeseuon tactegol i gynulleidfaoedd penodol gan ddefnyddio eCRM, cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni chwilio, er enghraifft targedu pobl sydd am osgoi Llundain yn ystod y Gemau.
- Byddwn yn defnyddio digwyddiadau Pêl-droed y Gemau Olympaidd, agoriad Llwybr Arfordir Cymru, Gemau Gwahanol y Byd a llu o weithgareddau awyr agored yng Nghymru i roi rhesymau cryf iawn ac unigryw i ymwelwyr posib ymweld â Chymru yn 2012 gan gynnwys rhoi sicrwydd i ymwelwyr posib sy'n aros gartref bod digon o gyfleoedd i wylio a mwynhau'r Gemau Olympaidd yng Nghymru ar eu gwyliau.

**Gwybodaeth i ymwelwyr a marchnata digidol**

- Ar hyn o bryd ein bwriad yw rhoi prif erthygl yn ein prif ddeunydd print i ddefnyddwyr, cylchgrawn Wales View a bydd yn cynnwys rhai o Athletwyr Olympaidd a Pharalympaidd o'r gorffennol a'r presennol a gwybodaeth am ddigwyddiadau allweddol 2012 sydd yng Nghymru.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i diweddaru'n rheolaidd a chynnwys aml-gyfrwng ynghylch ein dathliadau Olympaidd ar ein prif wefannau www.visitwales.com.
- Byddwn yn defnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Croeso Cymru a phrif rwydweithiau dylanwadu ar-lein i helpu i ledaenu diddordeb a chefnogaeth i'r Dathliadau Olympaidd yng Nghymru, i ddatblygu diddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon ac awyr agored, i rannu cynnwys am brif ddigwyddiadau megis Taith Gyfnewid y Fflam ac i gefnogi athletwyr Cymru sy'n cymryd rhan yn y Gemau.
- Byddwn yn rhannu gwybodaeth a chynnwys gyda phartneriaid allweddol ym maes twristiaeth a'r cyfryngau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar
  gael yng Nghaerdydd a ledled Cymru i dwristiaid sy'n ymweld.

**Cysylltiadau â'r Cyfryngau.**

- Bydd Croeso Cymru yn cael eu cynrychioli yng Nghanolfan Cyfryngau Llundain a fydd yn brif ganolfan i gyrraedd y nifer fawr o gyfryngau na fyddant yn adrodd ar y Gemau.
- Mae Croeso Cymru yn bwriadu cynnal teithiau ar gyfer blogwyr a newyddiadurwyr dylanwadol yn ystod gwanwyn 2012 sy'n cynnwys cysylltiadau i themâu, lleoliadau, gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn 2012 sy'n ymwneud â'r Gemau.

- Caiff Llwybr Arfordir Cymru ei lansio ym mis Mai a byddwn yn ceisio defnyddio hwn hefyd fel ffordd o gyfleu negeseuon cefnogol am y Gemau a digwyddiadau actif a diwylliannol eraill sy'n digwydd yng Nghymru yn 2012.
- Byddwn yn ceisio gweithio gyda'n llysgenhadon amlwg ym maes Chwaraeon a Gemau Olympaidd, athletwyr y gorffennol a'r presennol ac Athletwyr sy'n ymweld i feithrin cysylltiadau Cymru â'r Gemau i greu straeon sy'n werth eu cynnwys er mwyn rhoi hwb i dwristiaeth.
- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i ystyried cyfleoedd i gwrdd â chyfryngau penodol ym maes teithio, ffordd o fyw a darlledu mewn nifer fach o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd neu Lundain yn enwedig adeg unrhyw ddigwyddiadau allweddol sy'n arwain at y Gemau neu yn ystod y Gemau, er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi, Taith Gyfnewid y Fflam, Gemau Pêl-droed allweddol yng Nghaerdydd.
- Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a chynnwys penodol sy'n ymwneud â dathliadau'r Gemau Olympaidd yng Nghymru ar gael drwy'r Ystafell Cyfryngau Ar-lein newydd y disgwylir ei lansio yn ystod gwanwyn 2012.

**Partneriaethau a Masnach Teithio**

- Byddwn yn cynnwys ac yn diweddaru deunydd penodol ar ein gwefan masnach teithio ar gyfer Cymru ac yn rhoi gwybodaeth am Gymru a digwyddiadau Cymru sydd, yn ein barn ni, yn ddefnyddiol i'r fasnach deithio, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau allweddol yr Olympiad Diwylliannol.
- Rydym yn anfon gwybodaeth, newyddion a syniadau penodol adeg dathliadau'r Gemau i gysylltiadau corfforaethol a'r fasnach deithio sydd ar gronfa ddata Croeso Cymru.
- Rydym wedi gwneud cyflwyniadau yn Destination Britain and Ireland i'r farchnad APMEA a Destination Britain (93 cwmni) i'r farchnad Sgandinafiaidd (36 cwmni)
- Bu Croeso Cymru mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Visit Britain ac roedd cwmni'r Gemau Olympaidd yno.  Rhoddodd Chris Foy gyflwyniad o safbwynt Prydain cyfan gan gynnwys Cymru a'r prif negeseuon ar gyfer 2012.
- Byddwn yn ystyried a oes rhagor o gyfleoedd i wahodd unrhyw gwmnïau allweddol i unrhyw ddigwyddiad yng Nghymru neu yn Llundain y gellir ei gynnal ar y cyd yn ystod y Gemau Olympaidd.
-
- **Visit Britain ac Ymgyrchoedd**

- Rydym yn gweithio gyda Visit Britain i sicrhau bod Cymru a chynnyrch twristiaeth Cymru yn cael sylw cadarnhaol yn yr ymgyrch pedair blynedd GREAT BRITIAN - You're Invited sydd werth £100 miliwn yn y cyfnod yn arwain at y Gemau ac ar eu hôl.

- Byddwn yn darparu gwybodaeth sy'n benodol i Gymru a chynnwys aml-gyfrwng wedi'i frandio ar gyfer ei ailddosbarthu drwy wefannau cyfryngau, masnach a defnyddwyr Visit Britain ac eCRM a rhaglenni cyfryngau cymdeithasol a fydd yn brif ganolbwyntiau ar gyfer twristiaid a dylanwadwyr sydd â diddordeb mewn gwybodaeth dwristiaeth yn ymwneud â'r Gemau.

## 11. Cydlynu'r Cyfathrebu

Sefydlwyd Grŵp Cyfathrebu Llundain 2012 i gynllunio a chydlynu'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Caerdydd, Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r cynulleidfaoedd allweddol a chyfres o negeseuon pwysig cytunedig i helpu i sicrhau cymaint o gyhoeddusrwydd cadarnhaol ag sy'n bosib i straeon sy'n ymwneud â'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cydlynu ein cyfathrebu allanol a'r cyhoeddusrwydd gyda'r grŵp hwn.

**Atodiad Un: Amserlen Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012**

| Digwyddiadau Llundain a'r DU | Digwyddiadau yng Nghymru |
|---|---|
| **1af Hyd 2011:** 300 diwrnod i fynd tan Gemau Olympaidd Llundain 2012 | |
| **7 Tachwedd 2011:** Cyhoeddi llwybr Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd | |
| **Tachwedd**: Disgwyl ymgyrch tocynnau pêl-droed | |
| **Hydref 2011:** Tocynnau Gŵyl Llundain 2012 yn mynd ar werth | **Gwersylloedd hyfforddi cyn y gemau yng Nghymru: 12 tîm.** |
| **18fed Mai 2012:** Y Fflam Olympaidd yn cyrraedd y DU | |
| **19eg Mai - 27ain Gorffennaf:** Y Fflam Olympaidd yn teithio o amgylch y DU | **Aros 5 gwaith dros nos yng Nghymru: Caerdydd (25 Mai), Abertawe (26 Mai), Aberystwyth (27 Mai), Bangor (28 Mai)** |
| **21ain Mehefin i 9fed Medi 2012:**Gŵyl Llundain 2012 | |
| **27ain Gorffennaf: Seremoni Agoriadol y Gemau Olympaidd** | **25ain Gorffennaf – Cymru'n cynnal 11 gêm bêl-droed gan gynnwys y digwyddiad Cyntaf: gêm bêl-droed rhagarweiniol i fenywod a gêm medal efydd y Dynion** |
| **27ain Gorffennaf i 12fed Awst 2012**: Gemau Olympaidd Llundain 2012 | **Sgriniau Safleoedd Byw yng Nghaerdydd ac Abertawe** |
| **12fed Awst: Seremoni Gloi:** Gemau Olympaidd Llundain 2012 | |
| **27ain Awst: Taith Gyfnewid Fflam y Gemau Paralympaidd Llundain 2012** | **27ain Awst: Caerdydd yn cynnal Gŵyl y Fflam a'r Ffagl.** |
| **29ain Awst: Seremoni Agoriadol y Gemau Paralympaidd Llundain 2012** | |
| **29ain Awst i 9fed Medi 2012: Gemau Paralympaidd Llundain 2012.** | **.** |

**Atodiad Dau: Rhaglen Ddigwyddiadau Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI)**

| Gweithgareddau yng Nghymru | Cyfleoedd | Allbynnau |
|---|---|---|
| Gweithdy gemau Olympaidd | Cynnal gweithdy yng Nghymru gyda busnesau yn y cyfnod yn arwain at y Gemau. Syr Alan Collins i fynychu. | Ymgysylltu â busnesau yng Nghymru / Arweinwyr busnesau - deall sut gallent hwy elwa o gemau 2012. |
| Mae CompeteFor yn wasanaeth am ddim sy'n rhoi cyfle i fusnesau gystadlu am gyfleoedd contract sy'n gysylltiedig â Gemau Llundain 2012 – ynghyd â sefydliadau prynu eraill pwysig y sector cyhoeddus a'r sector preifat (Trafnidiaeth Llundain (TfL), Crossrail, Yr Heddlu Metropolitan) | Cyfle i weld busnesau Cymru drwy safle www.business.wales.gov.uk – ynghyd â cymorth gyda eitemau yn y cylchlythyr a dderbynia hyd at 20,000 o fusnesau yng Nghymru.<br><br>Cyfle i weld busnesau Cymru sydd wedi cofrestru ar www.sell2wales.co.uk drwy eitemau newyddion ar y safle a thrwy gylchlythyrau | Cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru sy'n defnyddio'r safleoedd hyn / tanysgrifio i'w gwasanaethau i gofrestru ar CompeteFor a dysgu sut gallent elwa. |
| Gwersylloedd Hyfforddi Cyn y Gemau - hyrwyddo'r cyfleoedd rhanbarthol, y gallu o ran allforio a buddsoddiad. | Archwilio amserlenni cynrychiolwyr busnes/gwleidyddol sy'n ymweld a'u gwahodd i'r canlynol:<br><br>Derbyniadau busnes rhanbarthol;<br>Derbyniad busnes yn y Senedd | Cyfleoedd i fusnesau gwrdd â chynrychiolwyr o dramor a dechrau trafodaeth ynghylch masnach/ymchwil. |
| Clwb Busnes Prydain – fforwm ar-lein yn cynnig ffenestr siop-un-stop i fusnesau'r DU a busnesau rhyngwladol i weld gweithgarwch busnes adeg digwyddiadau mawr rhyngwladol. | Cyfle i weld busnesau Cymru drwy safle www.business.wales.gov.uk – ynghyd â chymorth gydag eitemau yn y cylchlythyr a dderbynia hyd at 20,000 o fusnesau yng Nghymru.<br><br>Gellir defnyddio enw "Clwb Prydain" yng Nghymru i hyrwyddo digwyddiadau busnes. | Bydd busnesau yn gallu gweld amrywiaeth o ddigwyddiadau ac yn gallu cymryd rhan.<br><br>Mae Clwb Busnes Prydain wrthi'n datblygu adnodd partneru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i aelodau broffilio eu busnes a chysylltu â'i gilydd. Bydd hyn ar gael o dymor y gwanwyn 2012 ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd digwyddiad cyntaf gemau 2012 yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd - 25/07/2011<br><br>Pêl-droed Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd<br>Gemau rhagarweiniol i fenywod (2 gêm) | Mae hyn yn cynnig cyfleoedd posibl i wneud y canlynol:<br><br>Croesawu menywod sy'n arwain busnesau yng Nghymru/academyddion / rhwydwaith Menywod mewn Busnes | Dwyn ynghyd menywod sy'n arwain yng Nghymru i drafod cyfleoedd cydweithio yng Nghymru rhwng busnes/academia/sector cyhoeddus. |

## Atodiad Dau: Rhaglen Ddigwyddiadau Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI)

| **Gweithgaredd: Yn Llundain** | **Cyfleoedd** | **Allbynnau** |
|---|---|---|
| Cynhadledd Buddsoddi Byd-eang<br>26ain Gorffennaf 2012 – i'w gadarnhau<br><br>Dangos y DU fel cyrchfan buddsoddi byd-eang rhagorol Bydd UKTI yn gwahodd oddeutu 100 o Brif Weithredwyr byd-eang o 30 o wledydd gan dargedu buddsoddwyr o fodelau traddodiadol ac arloesol, megis Cronfeydd Cyfoeth Sofran. | Chwilio am gyfleoedd i'r Rheolwr Cyllid fynd i'r gynhadledd a rhwydweithio gyda Phrif Weithredwyr Byd-eang. | Rheolwr Cyllid yn ymgysylltu â buddsoddwyr posib |
| Uwchgynadleddau sector<br>Dyddiadau i'w cadarnhau<br>Sectorau i'w cadarnhau | Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio Cadeiryddion y Paneli Sector a/neu aelodau yn yr uwchgynadleddau i: rwydweithio, codi proffil eu sectorau perthnasol a chreu cysylltiadau.<br><br>Chwilio am gyfleoedd i Ymchwilwyr Allweddol/Academyddion siarad yn yr uwchgynadleddau. | Rhestr o gysylltiadau allweddol er mwyn i dimau'r Sector feithrin perthynas a chreu prosiectau a chytundebau masnach dros amser.<br><br>Ymwybyddiaeth ymysg cysylltiadau allweddol ynghylch yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i sectorau perthnasol.<br><br>Ymwybyddiaeth ymysg cysylltiadau allweddol ynghylch cryfderau ymchwil Cymru mewn sectorau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| Dychmygwch – Gwireddu Syniadau Mawr Prydain<br><br>Arddangosfa ddigidol fodiwlaidd sy'n tynnu sylw at ddyfeisiadau allweddol y DU gan sectorau blaenoriaeth<br><br>Lansio Mawrth 2012 | Edrych ar y dyfeisiadau gorau o bob lefel o fusnes/academia yng Nghymru a sefydlu'r hyn y mae angen iddynt ei wneud - er mwyn dod yn rhan o'r arddangosfa. | Lle Amlwg i Ddyfeisgarwch o Gymru. |

## Atodiad 3: Rhagor o gyfleoedd

Mae angen trafod y cyfleoedd ychwanegol canlynol ar ben y camau gweithredu a nodwyd yn y Prif Gynllun Gweithredu. Bydd angen adnoddau ychwanegol a mwy o gydlyniant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfleoedd hyn.

### Rhaglen Hyrwyddwyr Cymru.

Gallai Llywodraeth Cymru gydlynu rhaglen ffurfiol o ffyrdd lle byddai pawb ar ei ennill gan weithio gyda'n Hathletwyr Olympaidd gorau a strata chwaraeon gan gynnwys gwaith cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau, mynd i ddigwyddiadau bidio a rhwydweithio, cynnwys ar gyfer cyhoeddiadau, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol. Byddai'n rhaid i ni ystyried ymrwymiadau amser cyfyngedig Athletwyr ac unrhyw drefniadau contract ond byddai modd rhoi rhaglen hyblyg haenog ar waith. Mae'r timau hyrwyddo ar gyfer busnes a thwristiaeth eisoes wedi nodi amrywiaeth o gyfleoedd y gellid eu gweithredu yn 2012. Byddai angen adnoddau pwrpasol i drafod a datblygu'r rhaglen ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyhoeddusrwydd. Gellid ymestyn y rhaglen yn 2012 gyda'r posibilrwydd o barhau y tu hwnt ac ehangu i grŵp ehangach o Hyrwyddwyr.

### Derbyniad a Digwyddiadau Rhwydweithio yng Nghymru

Mae posibilrwydd o gynnal cyfres o nosweithiau thema/Digwyddiadau Cymru cydgysylltiedig yn Llundain (ac o bosib yng Nghaerdydd) - dros gyfnod y Gemau Olympaidd - fel ffordd o roi presenoldeb amlwg i Gymru ar gyfer rhwydweithio gyda chynulleidfaoedd allweddol. Deallir bod yr Alban yn meddwl cael Tŷ'r Alban fel canolfan ar gyfer gweithgareddau tebyg. Gallem ystyried defnyddio lleoliad sydd â chysylltiad cryf â Chymru megis cae rygbi Cymry Llundain neu fwytai sydd â chysylltiadau Cymreig. Gellid rhoi brand Cymru'n gadarn ar y digwyddiadau hyn a'u defnyddio i dangos bwyd a chynnyrch o Gymru a llysgenhadon Cymru ym maes chwaraeon. Gellid cysylltu'r digwyddiadau ag unrhyw ddathliad

Dydd Gŵyl Dewi. Byddai'n rhaid cydlynu'r cyfle ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar weithgareddau a manylion er mwyn bodloni gofynion gwahanol gynulleidfaoedd allweddol.

**Cyhoeddusrwydd yn Llundain a lleoliadau allweddol**

Bydd miliwn o ymwelwyr ychwanegol yn dod i'r Gemau, llawer o dramor, a bydd llawer iawn o'r cyfryngau yn Llundain ac mewn lleoliadau allweddol eraill. Bydd yn anodd i Gymru gael lle a sylw amlwg yn yr amgylchedd hwn a byddai'n rhy ddrud i dalu'r cyfryngau. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd cyfleoedd rhatach i ddefnyddio cyhoeddusrwydd tactegol yn Llundain, pyrth mynediad allweddol i ymwelwyr a digwyddiadau mewn lleoliadau Olympaidd eraill i fanteisio ar y gynulleidfa barod a hyrwyddo brand Cymru. Ymhlith y syniadau y mae Corau Meibion yn canu mewn gwahnaol lefydd, cynnal elfennau o Gemau Olympaidd Gwahanol y Byd, celf stryd 3d y Gemau Olympaidd. Byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn a byddai elfen o risg ac ystyried faint o weithgarwch cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau a fydd yn digwydd adeg y Gemau.

**Ymgyrchoedd Visit England**

Rydym yn trafod gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Visit England y potensial i sicrhau nawdd a chynnwys Cymru er mwyn iddynt ehangu eu hymgyrch arfaethedig sydd werth £3M, gan dargedu ymwelwyr domestig y DU yn 2012. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebu ar y teledu ledled y DU a hyrwyddo cynllun cynigion 20.12% a chaiff ei darlledu adeg Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd. Gallai'r ymgyrch fod yn ysgogiad defnyddiol, gan hyrwyddo neges gyffredinol i bobl aros yn y DU, a byddai hynny yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarn i ddilyn hyn â'n Hymgyrch Gwyliau Go iawn sydd ar y gweill a sicrhau ein cyfran i Gymru o'r farchnad allweddol a ddaw i'r DU.